# Cofnodion Cyfarfod 7/5/2026

**Presennol:** Cyng Dilys Evans, Eifion Roberts, Huw Symonds, Eluned Jones, Ken Edwards, Tomos Ffrancon, Haydn Roberts a Huw Antur (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Moira Mai, Jacqueline Allen, Rhys Evans, Sion McGuiness, Ceri Evans a Dilwyn Morgan (Aelod Lleol Cyngor Gwynedd).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Yn absenoldeb y Maer a'r Dirprwy Faer fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cyng Dilys Evans.

2. **Buddiant:** Ni ddatganwyd buddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 2/4/26.

4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**

    i. Cynllun Gwynedd Ni: Adroddwyd fod y polyn fflag a baner y Ddraig Goch wedi eu gosod ar y Grin, raciau beics wedi eu gosod ar y Stryd Fawr, a bod bocsys blodau ar gyfer y Stryd Fawr wedi cyrraedd, gyda threfniadau yn eu lle i blannu blodau a phlanhigion etc.

    ii. Gwaith Celf y Bala: Adroddwyd fod prisiau wedi eu derbyn ar gyfer y gwaith o greu sylfaen goncrid i'r gwaith celf ger y Ganolfan Hamdden. Cytunwyd i ddefnyddio prisiau Ynyr Jones ynghyd â phris Angharad Jones am adleoli ac ail baentio'r gwaith celf fel sail i gais ariannol i Gronfa Cefnogi Cynghorau Gwynedd.

    iii. Palmentydd y dref: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar Ebrill 15fed pryd y trafodwyd cyflwr cyffredinol palmentydd y dref. Cytunwyd i gadw mewn cysylltiad i bwysleisio'r angen am welliannau i'r palmentydd.

    iv. Fforwm Adfywio y Bala a Phenllyn: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod o'r fforwm a gynhaliwyd ar Ebrill 29ain, pryd y cafodd sefydliadau'r dref gyfle i rannu gwybodaeth am eu gwasanaethau a'u datblygiadau, ac y cafwyd diweddariad ar grantiau cymunedol gan swyddogion Cyngor Gwynedd.

    v. Cyfarfod yr Heddlu: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod cynghorwyr lleol y Bala a Phenllyn gyda'r Heddlu ar Ebrill 30ain, pryd y cyflwynodd yr Heddlu eu blaenoriaethau, sef ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyffuriau anghyfreithlon a goryrru yn y dref. Trafodwyd hefyd y problemau parcio ger Llyn Tegid ar

benwythnosau prysur yr haf, ac hefyd yr angen am CCTV i'r dref i hwyluso gwaith yr Heddlu. Cytunwyd i wneud ymchwil pellach i'r mater yma.

vi. Cafwyd trafodaeth bellach ar Gynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Eryri, ac fe gytunwyd i drafod un safle yn y dref ar gyfer ei chynnwys o fewn ffin datblygu tai y dref.

5. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd y Cyng Dilwyn Morgan yn bresennol.

6. **Is-bwyllgorau:**

**Is Bwyllgor Asedau:** Adroddwyd fod y Raciau Beics yn edrych yn dda ar y Stryd Fawr. Cytunwyd i osod baneri ar y Domen a ger y Ganolfan Hamdden fel arfer, a fe gytunwyd i holi'r Clwb Rotari am gynnydd eu bwriad i osod meinciau ar y Domen. Nodwyd fod graffiti ar loches bws ger Stryd y Fron, a phenderfynwyd gwneud cais i'w lanhau fel rhan o waith glanhau misol y llochesi. Adroddwyd fod bwriad i ail osod bwrdd gwybodaeth Mary Jones ar y Stryd Fawr.
**Is Bwyllgor Tref Gyfeillgar:** Adroddwyd y bydd gwelliannau i balmentydd y dref yn allweddol i gyrraedd statws Tref Gyfeillgar i'r Bala.
**Is Bwyllgor Bioamrywiaeth:** Cafwyd adroddiad ysgrifenedig gan y Cyng Jacquie Allen yn nodi ei bwriad i blannu blodau yn y bocsys blodau newydd.
**Is Bwyllgor Cyllid:** Nodwyd y bydd angen cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid unwaith y bydd cyfrifon drafft y cyngor am 2025/2026 wedi eu paratoi.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

**Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod y cwmni yn edrych i fewn i opsiynau datblygu ar gyfer Neuadd Buddug.

7. **Materion Cynllunio**:
Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

*8.* **Materion Cyllid:**

**i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £16,973 yn y cyfri cyfredol, £27,431 yn y cyfri cadw a £742 yng Nghronfa'r Maer ddiwedd Ebrill.

**ii.** Derbyniwyd diolchiadau am gyfraniad ariannol gan Gymdeithas Gymunedol y Bala a Phenllyn.

**iii.** Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, cyflog y Clerc, anfonebau Cwmni Pum Plwy Penllyn am hysbyseb yn y Cyfnod, anfoneb yswiriant blynyddol y cyngor, anfoneb rhent Tomen y Bala ac anfoneb Awen Meirion am faneri i'r cyngor.

iv. Nodwyd derbyn 50% o braesept blynyddol y cyngor.

v. Cyflwynwyd cyfrifon drafft y cyngor am 2025/2026.

vi. Nodwyd derbyn canran o incwm parcio Cyngor Gwynedd am 2025/2026, a chyfraniad Cyngor Gwynedd am gynnal Tomen y Bala am 2025/2026.

vii. Adroddwyd fod hawliad TAW y cyngor am 2025/2026 wedi ei gyflwyno.

**9. Gohebiaeth:**

i) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am Gronfa Datblygu Digwyddiadau Gwynedd, a nodwyd fod y wybodaeth wedi ei anfon ymlaen i drefnwyr digwyddiadau lleol.

ii) Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth raglen waith Adran Priffyrdd y cyngor, sef gosod giât ger Pont y Bala.

iii) Ymgynghoriaeth Gwynedd: Derbyniwyd diweddariad ar y gwaith ar goed y Stryd Fawr.

iv) Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth am Gronfeydd Cymunedol y Parc, a nodwyd fod un gronfa yn rhoi blaenoriaeth i ardaloedd o fewn y Parc sydd o dan bwysau trwm gan ymwelwyr yn ystod yr haf.

v) Urdd Gobaith Cymru – Cronfa Cyfle i Bawb: Derbyniwyd gwybodaeth am y gronfa sy'n cefnogi teuluoedd o gefndir difreintiedig i fynychu Gwersylloedd Haf yr Urdd.

vi) Maes Parcio Heol Tegid: Derbyniwyd sylw gan ymwelydd fod twll yn y maes parcio, ac fe gytunwyd i anfon y sylwadau i'r perchenogion.

10. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Trafodwyd yr angen cyffredinol am gyfleusterau chware i blant yn y dref.

Bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau 4 Mehefin 2026.



ARWYDDWYD........................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)